

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y
Cyhoedd

Papur Cefndir 1

Adolygiad Rhwystrau Glas (gyda mapiau)

Medi 2020

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Polisi Cynllunio Cymru	2
3. Llain Las neu Rwystr Glas	3
4. Methodoleg	4
5. Crynodeb o Ganlyniadau'r Adolygiad Rhwystrau Glas	5

Atodiad

Atodiad A: Tabl asesu	8
Atodiad 1-18 Mapiau Adolygu Rhwystrau Glas	36

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn pennu cyfeiriad datblygu yn y Sir rhwng 2015 a 2030. Bydd y CDLI yn pennu lleoliadau penodol lle fydd datblygiadau newydd, fel tai a datblygiadau cyflogaeth, yn cael eu caniatáu, gan hefyd geisio gwarchod ardaloedd eraill rhag datblygiadau. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLI yn sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol yn y Sir.

Mae'r papur cefndir hwn yn un o ystod o bapurau sy'n cael eu paratoi i gefnogi'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd ac mae'n egluro rhesymeg a methodoleg y Cyngor dros bennu rhwystrau glas yn y Cynllun. Gellir darllen pob papur cefndir ar ei ben ei hun, neu ar y cyd â'r Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd a'r papurau pwnc blaenorol a phapurau cefndir eraill sydd wedi'u paratoi.

Mae rhwystr glas yn adnodd cynllunio cyffredin sy'n ceisio diffinio ardaloedd cefn gwlad lle mae angen gwarchod eu natur agored a'u gwedd. Mae'r adnodd yn gweithio law yn llaw â ffiniau aneddiadau ond mae'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol o dir lle nad yw polisïau gwarchod cefn gwlad yn ddigonol i warchod y tir. Gall hyn fod oherwydd nodweddion penodol y tir ac aneddiadau ger llaw a gall hefyd fod o ganlyniad i bwysau datblygu parhaus.

Mae Cynllun Datblygu Unedol (CDU) mabwysiedig Sir y Fflint (2000-2015) yn diffinio rhwystrau glas ac mae'r rhain wedi bod yn fan cychwyn i asesiad cynhwysfawr a chyson. Mae asesiad hefyd wedi'i gynnal ar dri rhwystr glas arfaethedig a oedd yn rhan o gyflwyniadau safleoedd posib'. Mae'r adolygiad wedi'i gynnal gan ddefnyddio dibenion rhwystr glas fel maent wedi'u nodi yn PPW10.

Mae'r Papur Cefndir hwn wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys dim ond mapiau sy'n dangos newidiadau i'r rhwystrau glas. Dim newidiadau wedi'u gwneud i gynnwys yr asesiad o'r rhwystrau glas ac sy'n parhau fel y Papur Cefndir Cynllun wedi'i Adneuo Medi 2019.

Polisi Cynllunio Cymru

Mae'r canllawiau perthnasol ar rwystrau glas wedi'u nodi ym Mhennod 3 Polisi Cynllunio Cymru 10 'Dewisiadau Strategol a Gofodol' ac maent yn cael eu cyflwyno yng nghydstun 'Rheoli Ffurf Aneddiadau'. Mae paragraff 3.60 yn dweud '*o gwmpas trefi a dinasoedd, efallai bod angen diogelu tir agored rhag ei ddatblygu. Gellir gwneud hyn trwy ffurfio Lleiniau Glas a/neu ddynodiadau lleol fel lletemau glas.*' Er bod y CDU a'r CDLI yn defnyddio'r term 'rhwystrau glas', mae Polisi Cynllunio Cymru'n mynegi'n glir y gellir defnyddio termau eraill ar gyfer dynodiadau lleol. Mae'r paragraff yn parhau i nodi '*Rhaid bod gan bob cynnig am Lain Las neu letem glas sail gadarn ac ni ddylid eu*

defnyddio nes bod angen amlwg i ddiogelu'r ffurf trefol ac na fyddai mecanweithiau polisi eraill, fel ffiniau aneddiadau, yn ddigon cadarn'. Mae'r adolygiad o rwystrau glas wedi'i gynnal gan gofio hyn.

Mae paragraff 3.64 yn dweud mai'r un pwrpas sydd i letemau glas â lleiniau glas. Y pethau craidd i adolygu'r rhwystrau glas yw dibenion rhwystrau glas fel maent wedi'u diffinio ym mharagraff 3.63, sef:

- *'atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill;*
- *rheoli ffurf trefol drwy gadw rheolaeth ar ehangiad ardaloedd trefol;*
- *helpu i ddiogelu cefn gwlad rhag ymlediad aneddiadau trefol;*
- *diogelu pryd a gwedd ardal drefol; a*
- *helpu i adfywio trefi drwy roi anogaeth i aildefnyddio tir diffaith a thir trefol arall.'*

Mae paragraff 3.64 yn cydnabod y dylid cynnig ac adolygu lletemau glas fel rhan o broses y CDLI. Mae paragraff 3.65 yn dweud, o fewn rhwystrau glas, bod polisiâu sy'n rheoli datblygu yng nghefn gwlad yn berthnasol, ond yn ogystal â hynny *'ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiadau sy'n amhriodol yng nghyd-destun dibenion y dynodiad.'* Mae'r paragraff wedyn yn egluro bod lleiniau glas yn gallu cael effeithiau buddiol eraill, ond na ddylai'r rhain ddylanwadu ar benderfyniad i bennu tir.

Mae paragraff 3.66 yn egluro y *'Dylid dewis ffiniau... lletemau glas yn ofalus, drwy ddefnyddio nodweddion a ffiniau ffisegol, er mwyn cynnwys dim mwy na'r tir hwynnw y mae angen ei gadw'n agored yn y tymor hwy.'* Dywed paragraff 3.67 *'Er mwyn cadw natur agored yr ardal, rhaid i ddatblygiadau mewn Llain Las a lletem las gael eu rheoli'n llym. Wrth gynnwys polisiâu Lleiniau Glas a lletemau glas yn eu cynlluniau, rhaid i awdurdodau cynllunio ddangos pam na fyddai polisiâu rheoli cynllunio a datblygu arferol yn darparu'r diogelwch angenrheidiol.'*

Llain Las neu Rwysr Glas

Mae nifer fawr o aneddiadau yn y Sir yn hytrach nag un dref, dinas neu gytref drefol fawr. Yn ofodol, nid yw dynodiad llain las yn gweddu i'r patrwm datblygu gofodol. Mae'r mater o ystyried llain las wedi'i ystyried yn rhan o Gynllun Fframwaith Clwyd, Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint a'r CDLI bellach a'r gred ar bob achlysur oedd nad oedd yn briodol ar gyfer y Sir. Yn hytrach, ystyrir bod dynodiad rhwystr glas lleol o amgylch a rhwng aneddiadau, sy'n gallu cael ei adolygu wrth baratoi pob cynllun, yn fwy priodol. Mae dull tebyg wedi'i ddefnyddio yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy ac mae hyn yn sicrhau bod polisiâu'n gyson ar draws Gogledd Cymru.

Methodoleg

Mae pob rhwystr glas sydd yn y Cynllun Datblygu Unedol wedi'i adolygu ochr yn ochr â'r dibenion sydd wedi'u diffinio ym Mholisi Cynllunio Cymru 10. Mae'r dibenion yn cael eu hegluro a'u dehongli'n fwy manwl yn y tabl isod:

Pwrpas Polisi Cynllunio Cymru 10	Eglurhad a dehongliad
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	Mae hon yn swyddogaeth allweddol i rwystr glas wrth geisio atal cyfuno ag aneddiadau eraill. Mae'r geiriad yn cyfeirio at atal 'trefi mawr' rhag cyfuno ag 'aneddiadau eraill'. Fodd bynnag, mae nifer, patrwm a math yr aneddiadau yn y Sir yn golygu bod angen rhwystrau glas rhwng rhai aneddiadau 'eraill'.
Rheoli ffurf trefol drwy gadw rheolaeth ar ehangiad ardaloedd trefol	Mae hyn yn edrych ar anheddiad yn ehangach o ran ei ffurf, ei siâp a'i batrwm datblygu. Mae hefyd yn cynnwys ystyried a oes angen neu a yw'n briodol i rwystr glas warchod ffurf drefol neu ganiatáu i'r anheddiad ehangu dan reolaeth.
Helpu i ddiogelu cefn gwlad rhag ymlediad aneddiadau trefol	Mae hyn yn ceisio atal datblygiadau rhag ymledu i gefn gwlad lle byddai hyn yn niweidiol i amcan rhwystr glas. Nid yw hyn yn golygu bod pob ymyl drefol angen rhwystr glas i atal ymledu, ond yn hytrach, ystyriaeth i ffurf aneddiadau a natur yr ymyl drefol a'r tir gwledig sy'n taro â hi.
Diogelu pryd a gwedd ardal drefol	Mae hyn yn berthnasol pan mae ymyl benodol agored neu sensitif i anheddiad a'i bod wedi'i lleoli yng nghefn gwlad. Gall hefyd fod yn berthnasol pan mae gan anheddiad werth hanesyddol penodol.
Helpu i adfywio trefi drwy roi anogaeth i aildddefnyddio tir diffaith a thir trefol arall	Byddai hyn yn berthnasol pan fyddai anheddiad efallai â rhannau mawr o dir llwyd neu dir gwag/segur. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y byddai angen i rwystr glas ganolbwyntio ar ddatblygu safleoedd o'r fath, yn hytrach na datblygu safleoedd tir glas ar ymyl yr anheddiad.

Roedd ystyriaethau eraill yn yr asesiad fel a ganlyn:

Pwysau datblygu sylweddol	P'un a yw'r tir wedi bod yn destun pwysau datblygu sylweddol. Mae hyn yn cynnwys safleoedd hepgorol y Cynllun Datblygu
---------------------------	--

	Unedol, safleoedd posib' y CDLI a safleoedd eraill a cheisiadau cynllunio ac ymholiadau cyn cyflwyno cais cynllunio.
Dynodiadau polisïau eraill	P'un a yw'r tir yn destun dynodiadau neu gyfyngiadau polisïau eraill.

Roedd pob rhwystr glas yn destun asesiad a oedd yn pennu a oedd tir i gael ei gynnwys mewn rhwystr glas a pha mor briodol oedd ffiniau'r rhwystr glas. Roedd yr ystyriaethau'n cynnwys pa mor agored oedd y tir, ffurf y tir, cyswllt ffisegol ag aneddiadau, ffurf drefol a natur ymylon trefol ac ystyried a oedd ffiniau diriaethol cadarn.

Ystyriaethau eraill yn yr adolygiad oedd y dylai rhwystrau glas:

- beidio â chael eu dynodi lle byddai polisïau cefn gwlad eraill yn ddigonol
- peidio â chael eu llunio'n ehangach nag sydd angen i gyflawni eu diben
- cael eu llunio lle mae pwysau datblygu sylweddol a pharhaus
- peidio ag ailadrodd dynodiadau polisïau eraill yn ddiangen
- peidio â gorfod cynnwys unrhyw dir sydd o werth hanfodol ynddo'i hun, gwarchod natur na rhinwedd arall.

Nid oes angen i ddarn o dir fodloni pob maen prawf ac nid yw dynodiad yn seiliedig ar 'restr o focsyst i'w ticio'. Mewn rhai achosion, bydd un neu ddau o feini prawf mor bwysig nes eu bod yn cyfiawnhau dynodiad fel rhwystr glas.

Roedd yr asesiad hefyd yn ystyried bod angen darparu dyraniadau datblygu lle roedd safleoedd yn cyd-fynd â strategaeth ofodol y Cynllun a'r broses asesu safleoedd fanwl, ac na fyddai hyn yn niweidio ar ba mor agored oedd y rhwystr glas na'r dibenion dros ddynodi'r rhwystr glas. I ddilyn hyn mae argymhelliad i bennu a ddylid cadw, diwygio neu ddiddymu rhwystr glas.

Crynodeb o Ganlyniadau'r Adolygiad Rhwystrau Glas

Mae adolygiad manwl y rhwystrau glas wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio, mae crynodeb isod:

Cyfeirnod	Rhwystr Glas	Argymhelliad	Cyfeirnod Newydd	mapiau
GEN4(1)	Gronant - Talacre - Gwesbyr - Ffynnongroyw	Cadw ond diddymu'r rhan ddwyreiniol	EN11(1)	Atodiad 1

GEN4(2)	Gorsedd - Carmel	Cadw	EN11(2)	Atodiad 2
GEN4(3)	Y Fflint - Bagillt	Cadw ond diddymu rhan a'i ehangu	EN11(3)	Atodiad 3
GEN4(4)	Y Fflint - Cei Connah	Cadw gydag estyniad bach	EN11(4)	Atodiad 4
GEN4(5)	Y Fflint - Mynydd y Fflint	Cadw a diddymu rhan fach	EN11(5)	Atodiad 5
GEN4(6)	Mynydd y Fflint - Llaneurgain	Cadw	EN11(6)	Atodiad 6
GEN4(7)	Y Waun - Pant-y-mwyn	Cadw ond diddymu'r rhan ddeheuol	EN11(7)	Atodiad 7
GEN4(8)	Treffynnon - Carmel	Diddymu	amherthnasol	Atodiad 8
GEN4(9)	Treffynnon - Maes Glas - Bagillt	Cadw ond diddymu'r rhan ddeheuol	EN11(8)	Atodiad 9
GEN4(10)	Yr Wyddgrug - Gwernymynydd	Cadw ond diddymu rhan fach	EN11(9)	Atodiad 10
GEN4(11)	Yr Wyddgrug - Mynydd Isa - New Brighton - Sychdyn	Cadw ond diddymu rhannau bach	EN11(10)	Atodiad 11
GEN4(12)	Cei Connah - Northop Hall - Ewlo - Shotton	Cadw ond diddymu rhan fach	EN11(11)	Atodiad 12
GEN4(13)	Shotton - Mancot - Penarlâg - Ewlo	Cadw	EN11(12)	Atodiad 13
GEN4(14)	Penarlâg - Mancot - Maes Awyr Penarlâg	Cadw ond diddymiadau bach a sylweddol (rhan fach i'w hychwanegu at GEN4(15))	EN11(13)	Atodiad 14
GEN4(15)	Brychdyn - Maes Awyr Penarlâg - Saltney	Cadw ond diddymu ac ehangu rhannau sylweddol (a chynnwys rhan fach o GEN4(14) sydd wedi'i ddiddymu)	EN11(14)	Atodiad 15
GEN4(16)	Sealand - Ffin Swydd Gaer	Cadw	EN11(15)	Atodiad 16
GEN4(17)	Bwcle - Little Mountain - Dobshell - Drury - Penarlâg - Ewlo	Cadw ond diddymu un rhan fach ac un fawr	EN11(16)	Atodiad 17
GEN4(18)	Yr Hôb - Caergwrle	Diddymu	amherthnasol	Atodiad 18
Cynigion Rhwystrau Glas Safleoedd Posib'				

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd
Papur Cefndir 1: Adolygiad Rhwystrau Glas (gyda mapiau) – Medi 2020

PEN029	Gorllewin Penyffordd	Peidio â'i ddynodi	amherthnasol	
PEN030	Dwyrain Penyffordd	Peidio â'i ddynodi	amherthnasol	
SYCH018	Gogledd-ddwyrain Sychdyn	Peidio â'i ddynodi	amherthnasol	

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd
Papur Cefndir 1: Adolygiad Rhwystrau Glas (gyda mapiau) – Medi 2020

Rhwystr Glas CDU	Gronant-Talacre-Gwesbyr-Ffynnongroyw	Carmel-Gorsedd	Fflint-Bagillt
Cyf a Swyddogaeth Rhwystr Glas	GEN4 (1)	GEN4 (2)	GEN4 (3)
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	x	x	✓
Rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol	x	x	✓
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad	✓	✓	✓
Diogelu gosodiad ardal drefol	x	x✓	x
Cynorthwyo adfywiad trefol drwy annog ailgylchu tir segur a thir trefol arall	x	x	x
Ystyriaethau Eraill			
Pwysau datblygu arwyddocaol?	Pwysau datblygu cyfyngedig iawn - dim safleoedd arfaethedig. 1 safle hepgor CDU Dim Safleoedd Amgen Peth pwysau o ddatblygiadau carafannau a champio.	Pwysau datblygu cyfyngedig - dim safleoedd arfaethedig. 2 safle hepgor CDU Dim Safleoedd Amgen	Pwysau datblygu yn y Fflint yn gyffredinol - un safle arfaethedig sydd yn amgylchynu Ystâd Ddiwydiannol Parc Aber. Dim safle hepgor CDU Dim Safleoedd Amgen
Dynodiadau polisi eraill.	Ardal risg llifogydd llanwol a risg llifogydd dŵr wyneb, dynodiadau SSSI, SPA a Ramsar yn gysylltiedig ag Aber Afon Dyfrdwy, yn rhannol yn ardal gosodiad hanfodol Abaty Talacre, polisi L6 - arfordir annatblygedig.	Ardal Diogelu Mwynau	Na
Asesiad	Rhwystr glas helaeth (356ha) sydd yn cynnwys tir amaethyddol arfordirol a	Rhwystr glas bychan 22.6ha rhwng Carmel a Gorsedd. Mae'n cynnwys tor agored	Rhwystr glas bychan (42.94ha) i'r de o'r A548 Ffordd y Glannau rhwng Bagillt (Bedol)

	<p>gwlypdiroedd rhwng pedwar anheddiad bach syd yn profi pwysau datblygu cyfyngedig. Yn y Strategaeth a Ffafrir mae Ffynnongroyw and Gronant yn Bentrefi Cynaliadwy, mae Talacre yn Bentref Diffiniedig a Gwesbyr yn Bentref Anniffiniedig. mae'r cyd-destun yma yn annhebygol o arwain at dwf arwyddocaol yn unrhyw un o'r aneddiadau yma. Ond, mae natur topograffeg rhan uchaf Gronant yn golygu mai dim ond ychydig o gyfleoedd datblygu sydd yn bodoli, a gallai hynny roi pwysau ar ran isaf yr anheddiad.</p> <p>I bob pwrpas gellir hollti'r rhwystr glas yn ddwy ran benodol.</p> <p>Yn y rhan ddwyreiniol nid oes yna broblemau cyfuno uniongyrchol oherwydd y pellter rhwng Ffynnongroyw a Thalacre a phresenoldeb y Terminal Olew yn y canol. Nid yw'r rhwystr glas yn ffinio ag anheddiad Ffynnongroyw, ac mae yna barsel o dir yn y canol. Mae ehangid gorllewinol Ffynnongroyw wedi di gyfyngu gan risg llifogydd ac mae'r A548 hefyd yn gweithredu fel nodwedd amddiffynnol ffisegol.</p> <p>Gellir rheoli a diogelu'r tir i'r gogledd o'r A548 yn ddigonol drwy bresenoldeb ffin yr anheddiad a pholisïau rheoli datblygiad sydd yn rhagdybio yn erbyn datblygu mewn cefn gwlad agored ac yn yr ardal arfordirol annatblygedig. Hefyd mae'n debygol y bydd y CDLI yn cadw polisi twristiaeth T4 y CDU, nad yw'n caniatáu datblygiad carafannau statig</p>	<p>amlwg sydd yn codi o'r A5026 at ffin ogleddol anheddiad Carmel a bwlch bach o gefn gwlad (sydd yn cynnwys aneddiadau gwasgaredig) ar ffurf dyffryn rhwng y ddau anheddiad.</p> <p>O ystyried y cyfyngiadau topograffeg sydd yn bresennol yn rhan ddeheuol Carmel, a'i statws fel Pentref Cynaliadwy haen 3, mae'n debygol y bydd yr amryw o dir rhwng yr A5026 yn destun pwysau ar gyfer datblygu. mae'r tir yma yn amlwg iawn o'r A5026 ac mae'r darparu gosodiad tirlun neilltuol ar gyfer y llinell bresennol o ddatblygiad adeiledig yn Allt y Gloch. Byddai datblygu'r tir yma yn rhoi pwysau ar y bwlch cul rhwng Carmel a Gorsedd o ystyried bod yna eisoes nifer fechan o eiddo. Byddai datblygu yn arwain at gyfuno'r ddau anheddiad bron.</p>	<p>a Fflint i'r dwyrain. Mae'r dynodiad yma yn gwarchod bylchau agored bach ond pwysig rhwng Fferm Bedol a Ffordd Coleshill a rhwng Llwyn Onn a Fferm Bryn. Amcan y rhwystr glas yw atal ffyrntiad adeiledig parhaus rhwng Bagillt a Fflint ar hyd yr A548.</p> <p>Nid yw'r rhwystr glas, fel y'i diffinnir ar hyn o bryd, yn adlewyrchu ei deitl yn yr ystyr nad yw'n ymestyn at ffiniau Fflint. Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth wedi dod i'r casgliad nad oes angen mwy o ddynodiadau tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun, ac nid yw'r angen i ymestyn tir cyflogaeth tua'r gogledd orllewin yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r ardal yma o dir ar ymyl yr ystâd ddiwydiannol yn agored o ran e gymeriad ac heb ei ddatblygu, ac eithrio Fferm Bryn, sydd wedi ei lleoli'n gyfforddus yng ngosodiad ei thirlun amaethyddol. Wedi ei lleoli ar hyd yr A548 Ffordd y Glannau mae hefyd yn amlwg ac agored o ran ei chymeriad, ond nid yw'n gynwysedig yn y rhwystr glas presennol. Ystyrir y dylid ymestyn y rhwystr glas i'r de ddwyrain hyd at ffiniau presennol yr anheddiad.</p> <p>Mae anheddiad Bagillt yn gyfyngedig i raddau o ran dynodi twf posibl yn y dyfodol oherwydd ei dopograffi. Hefyd, nid yw dynodiadau presennol e.e. Fferm Wern wedi cael eu cyflwyno ar gyfer datblygu. Mae yna gyfle yn bodoli ar gyfer twf mwy hirdymor i dde ddwyrain yr anheddiad ar gyrion Ffordd Coleshill. Felly ystyrir y dylid tyngu'r rhwystr glas yn ôl i ochr ddwyreiniol y bloc presennol o ddatblygu sydd yn cynnwys Oak Grange a Manor Drive. Byddai hynny yn caniatáu estyniad trefol posibl o Dyddyn Mesham i'r de ddwyrain hyd at y bloc presennol hwnnw o ddatblygu. Ond, byddai bwlch agored yn dal i gael ei gadw rhwng Bagillt a Fflint, ar hyd yr A548.</p>
--	--	--	--

	<p>newydd yn yr ardal sydd ar hyn o bryd wedi ei dynodi fel rhwystr glas, yn ogystal â pholisi L6 sydd yn amcanu at warchod arfordir annatblygedig. Ystyrir bod gwarchodaeth ychwanegol ar ffurf dynodiad rhwystr glas yn ddiangen o ystyried y cyfyngiadau ffisegol (risg llifogydd), amgylcheddol (cadwraeth natur) a pholisi i'r datblygiad.</p> <p>Hefyd mae nifer o'r ystyriaethau uchod yn gymwys i ran orllewinol y rhwystr glas. Fodd bynnag, mae yna gyd-destun ychydig yn wahanol i'r rhan yma o'r rhwystr glas oherwydd presenoldeb datblygiad adeiledig yn rhan isaf Gronant, y datblygiad adeiledig sylweddol yng ngogledd orllewin Gwesbyr a Pharc Gwyliau Presthaven Sands Mae hyn yn swm sylweddol o ddatblygu gyda chyfradd uchel o ryngweledd ac mae mewn lleoliad amlwg ar hyd yr A548 prysur iawn ac ar gyrion yr AONB sydd yn dirlun o bwysigrwydd cenedlaethol. O ystyried cymeriad fflat ac agored y tirlun, ystyrir y gellir cyfiawnhau cadw'r rhan yma o'r rhwystr glas o ran diogelu cefn gwlad rhag tresmasiad.</p>		<p>Hefyd ystyrir bod y rhwystr glas presennol yn ymestyn i mewn i'r tir ymhellach nag sydd angen er mwy cyflawni ei swyddogaeth sylfaenol o atal cyfuno Bagillt a Fflint. Felly ystyrir y dylid tynnu'r rhwystr glas yn ôl ychydig er mwyn canolbwyntio ar fwch mwy diffiniedig ar hyd yr A548 Ffordd y Glannau. Dylai'r rhwystr glas yn gyffredinol ddilyn llinell ar hyd ffin ddeheuol Parc Aber a phwynt ychydig i'r gorllewin o Heol Trebor ger Fferm Nant y Moch. Mae'r tir sy'n ffinio â'r maes chwarae ar Heol Trebor ar godiad tir ac yn codi ble byddai datblygu yn amlwg yn y tirlun ac yn niweidio ffurf trefol a'r bwch rhwng yr aneddiadau.</p>
<p>Argymhelliad</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas ond bod y tir o'r ffordd fynediad rhwng cylchfan yr A548 a'r Terminal Olew i'r dwyrain tuag at Ffynngroyw yn cael ei ddileu.</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas.</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas gyda'r diwygiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Dileu'r rhwystr glas i'r dwyrain o Fferm Bedol hyd at Ffordd Coleshill ii) Dileu'r rhwystr glas i'r gorllewin o Fferm Nant y Moch iii) Ymestyn y Rhwystr Glas hyd at ffin presennol yr anheddiad ar ffin orllewinol Ystâd Ddiwydiannol Parc Aber

Rhwyr Glas CDU	Fflint-Cei Connah GEN4 (4)	Fflint-Mynydd Fflint GEN4 (5)	Mynydd Fflint-Llaneurgain GEN4 (6)
Swyddogaeth y Rhwystr Glas			
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	✓	✓	?
Rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol	✓	✓	✓
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad	✓	✓	✓
Diogelu gosodiad ardal drefol	*	✓	✓
Cynorthwyo adfywiad trefol annog ailgylchu tir segur a thir trefol arall	*	*	*
Ystyriaethau Eraill			
Pwysau datblygu arwyddocaol?	Oes - 14 safle arfaethedig. 3 safle hepgor CDU 1 Safle Amgen	Fflint yn gyffredinol a 3 safle arfaethedig. 3 safle hepgor CDU 1 Safle Amgen	Oes - 2 safle arfaethedig ar gyfer datblygu, nifer o safleoedd hepgor CDU. Cais cynllunio diweddar ar gyfer tai yn ffinio â'r cae criced. 1 Safle Amgen
Dyblygu dynodiadau polisi eraill.	SSSI	Na	Na
Asesu	Rhwyrstr glas helaeth (335ha) rhwng dau o brif drefi'r Sir (Prif Ganolfannau Gwasanaethau). Mae'n cynnwys bwll strategol sydd yn ymestyn o'r felin bapur yn Oakenholt ar gyrion Fflint i Neuadd Kelsterton a Champws Coleg Glannau Dyfrdwy ar gyrion dwyreiniol Cei Connah. Ystyrir bod yr egwyddor o gadw'r rhwystr glas yn	Rhwyrstr glas 115ha rhwng Fflint a Mynydd Fflint. Mae'n cynnwys bwll strategol ac amlwg rhwng y dref a'r anheddiad ar hyd yr A5119 Ffordd Llaneurgain a Ffordd Helygain. Hefyd mae tir agored ar ochr ddwyreiniol Ffordd Llaneurgain yn uniongyrchol yn atal Fflint a Mynydd Fflint rhag cyfuno. Mae'r ardal yma o dir amaethyddol yn cynnig golygfeydd agored o aber Afon Dyfrdwy a thu hwnt i'r Wirral,	Rhwyrstr glas cymharol fach (89ha) i'r gogledd o Llaneurgain, o gwmpas cyffordd A55/A5119 rhwng Llaneurgain a Choleg Cambria. Mae'r dynodiad yn amcanu at warchod yr ardal o gwmpas cyffordd yr A55/A5119 rhag ymyrraeth gweledol, atal cyfuno Llaneurgain a Choleg Cambria ac ardal adeiledig Maes Celyn ac atal tresmasiad trefol i'r ardal wledig ehangach.

	<p>briodol o ran atal cyfuno a rheoli'r ffurf trefol.</p> <p>Nid yw'r rhwystr glas, fel y'i diffinnir ar hyn o bryd, yn adlewyrchu ei deitl yn yr ystyr nad yw'n ymestyn at ffiniau Fflint. Yn ei hanfod mae'n eithrio'r ardal o dir i'r dwyrain o Heol Leadbrook. Felly byddai'n rhesymegol ymestyn y rhwystr glas tua'r gorllewin er mwyn ymgorffori'r rhan fwyaf o'r tir hyd at Heol Leadbrook, tra'n eithrio ardal o dir i'r de o'r A548 er mwyn caniatáu gofod ymestyn (os bydd angen) i'r felin bapur yn Oakenholt.</p> <p>Yr unig gyfeiriad realistig y gall Cei Connah dyfu iddo yn y dyfodol yw i'r gorllewin. Fodd bynnag, mae'r estyniad y dref tua'r gorllewin yn cael ei gyfyngu ar hyn o bryd gan y rhwydwaith ffyrdd preswyl presennol. Er mai bychan yw'r tebygolrwydd y bydd yna gyfuno rhwng llawer o ffin orllewinol Cei Connah a Fflint, mae'n darparu llain annatblygedig agored rhwng y bwch yng ngogledd y rhwystr glas (rhwng Fflint a Chei Connah a'r bwch culach yn ne'r rhwystr glas (rhwng Cei Connah a Northop Hall-GEN4 (12))).</p> <p>Yn y cyd-destun yma ystyrir y dylid cadw'r rhwystr glas a'i ymestyn hyd at gyrion Fflint. Mae'r rhwystr glas yn atal cyfuno Fflint a Chei Connah ac (yn unol â GEN4(12)) yn atal cyfuno Cei Connah a Northop Hall. Mae'n cynorthwyo'r broses o reoli ffurf trefol Cei Connah ac atal Cei Connah rhag ymestyn yn fwy cynyddraddol i gefn gwlad agored.</p>	<p>ac mae'n darparu gosodiad i anheddiad Fflint. Ystyrir bod yr egwyddor o gadw'r rhwystr glas yn briodol.</p> <p>Hefyd, mae'r dynodiad rhwystr glas yn rheoli ffurf trefol Tref Fflint drwy wahardd ymestyn i'r tir tuag at Mynydd Fflint a chyfeirio datblygiadau yn y dyfodol yn Fflint i ymylon de ddwyreiniol y dref.</p> <p>Ni fyddai mân ddiwygiad arfaethedig i dynnu'r rhwystr glas yn ei ôl ac eithrio caeau chwarae'r ysgol yn arwain at gyfuno gyda Mynydd Fflint oherwydd bod datblygiadau preswyl presennol ar Heol Tudor a Maes Teg yn ymestyn ar hyd ymyl de ddwyreiniol caeau chwarae'r ysgol. Hefyd gellir gwarchod y caeau chwarae drwy bolisi fydd yn amcanu at ddiogelu manau agored hamdden a gofynion tir at ddefnydd ysgol neu gymuned.</p>	<p>Mae'r rhwystr glas yn ffinio yn y de ag ardal adeiledig Llaneanrgain a champws Coleg Cambria yn y gorllewin ar ochr ogleddol y ffordd, a datblygiad preswyl ym Maes Celyn ar ochr ddeheuol y ffordd. I'r gogledd o'r anheddiad mae'r rhwystr glas wedi ei hollti gan gyfnwidfa wahanedig yr A55 a'r A5119. Ar ochr ddwyreiniol yr A5119 mae yna gaeau amaethyddol, cae criced, mynwent a gwaith carthffosiaeth, ac mae pob un yn ddefnyddiau cydnaws mewn rhwystr glas.</p> <p>Fel y'i diffinnir, mae'r rhwystr glas yn atal cyfuno rhwng Maes Celyn / Coleg Cambria a Llaneanrgain, sydd yn Bentref Cynaliadwy haen 3. Gellir cyfiawnhau hynny oherwydd bod yna bwysau parhaus am ddatblygu fel y dangosir gan y safleoedd arfaethedig a gyflwynwyd ar dir sydd yn ffinio â Llaneanrgain a Maes Celyn. Mae cynigion blaenorol wedi cael eu crybwyll ar gyfer ymestyn Coleg Cambria yn sylweddol, ac mae'r rhain wedi cael eu hailadrodd wrth gyflwyno Safle Amgen, mewn perthynas â thir i'r gogledd a'r de o'r A55.</p> <p>Hefyd mae yna bwysau sylweddol amlwg i ddatblygu ar dir ar ffin ogleddol Llaneanrgain ble mae yna safleoedd arfaethedig, ac mae Annwyl wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer tai a wrthodwyd ym Mawrth 2017 (cyfeirnod cais 055807). Mae'r pwysau datblygu yma yn cyfiawnhau maint y rhwystr glas i'r gogledd o Laneurgain. Mae'r ffaith bod y Llwybr Coch wedi cael ei ddewis gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ffordd newydd yn arwain at oblygiadau i'r rhwystr glas yma. Yn y cyd-destun yma, byddai'n amhriddol ar gyfer pwysau datblygu arwyddocaol ar gefn y llwybr coch, pan fyddai'n ffinio ag anheddiad a ddiffinnir fel pentref cynaliadwy, ond sydd yn fychan ei faint ac yn hanesyddol ei natur. Mae'r ymagwedd yma yn cydnabod, er y</p>
--	--	---	--

	<p>Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd y cynllun ffyrdd 'llwybr coch' a ffafrir a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn debygol o arwain at bwysau datblygu a chyfle fyddai'n cael ei gyfyngu drwy dynodi rhwystr glas yn ardal y llwybr. I'r gwrthwyneb, heb ddyodiad rhwystr glas, gallai'r tri olygu mwy o bwysau ar ddatblygu allai olygu y byddai Cei Connah a Fflint yn cyfuno.</p> <p>Ar hyn o bryd mae yna nifer o ffactorau anhysbys ynghylch dyluniad manwl y llwybr coch. Hefyd, nid yw'r amserlen gweithredu yn hysbys, ond mae'n debygol o fod tuag at ddiwedd cyfnod y cynllun ac o bosibl y tu hwnt i ddiwedd cyfnod y CDLI. Felly, ystyrir bod y rhwystr glas yn destun adolygiad mwy sylfaenol pan fo'r manylion, goblygiadau a'r cyfleoedd sydd yn gysylltiedig â'r llwybr coch yn hysbys a dealliedig. Bydd hynny yn caniatáu ystyried potensial datblygu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI ac adolygiad pellach o'r rhwystr glas er mwyn sicrhau bod bwllch strategol yn dal i fodoli rhwng Fflint a Cei Connah.</p>		<p>gallai ychydig o ddatblygu newydd yn Llaneanrgain, dylai fod yn fychan ei faint ac yn gydnaws â maint a chymeriad y pentref, yn hytrach nag ymestyniad ar raddfa fawr.</p> <p>Yng nghyd-destun pwrpas rhwystr glas yn PPW, y cyfiawnhad dros y rhwystr glas yma yw: rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol, cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad a gwarchod gosodiad ardal drefol. Mae gosodiad gwledig pentref hanesyddol Llaneanrgain yn bwysig oherwydd ei fod yn gwarchod gosodiad yr ardal gadwraeth a'r adeiladau rhestredig amrywiol. Mae hynny yn swyddogaeth bwysig i'r rhwystr glas yn y lleoliad yma.</p> <p>Felly bydd y rhwystr glas yn offeryn cynllunio pwysig o ran rheoli ffurf trefol, a gwarchod gosodiad gwledig agored yr anheddiad yma. Bydd hefyd yn cynorthwyo i wrthsefyll pwysau anochel yn y dyfodol ar gyfer datblygu fydd yn gysylltiedig â'r Llwybr Coch, er nad yw'r amserlen yn glir ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn rhoi cyfle i ailasesu hyn pan fo'r llwybr a goblygiadau'r Llwybr Coch yn fwy dealliedig.</p>
<p>Argymhelliad</p>	<p>Cadw rhwystr glas a'i ymestyn tua'r gorllewin hyd at Heol Leadbrook ac i'r de o'r felin bapur.</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas ond ei addasu drwy dynnu'r ffin yn ôl i'r dwyrain o Ysgol Uwchradd Fflint/Ysgol Maes Hyfryd.</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas</p>

Rhwyr Glas CDU	Gwernaffield -Pantymwyn GEN4(7)	Treffynnon-Carmel GEN4(8)	Treffynnon-Greenfield-Bagillt GEN4(9)
Swyddogaeth y Rhwyr Glas			
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	✓	*	✓
Rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol	*	*?	✓
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad	✓	✓	✓
Diogelu gosodiad ardal drefol	*	*	*
Cynorthwyo adfywiad trefol drwy annog ailgylchu tir segur a thir trefol arall	*	*	*
Ystyriaethau Eraill			
Pwysau datblygu arwyddocaol?	Na - 1 safle arfaethedig. Dim safle CDU Dim Safleoedd Amgen	Na safleoedd arfaethedig. 3safle hepgor CDU Dim Safleoedd Amgen	Oes. 7 safle arfaethedig. 10 safle hepgor CDU. Dim Safleoedd Amgen
Dyblygu dynodiadau polisi eraill.	Ardal Diogelu Mwynau yn rhannol	Ardal Diogelu Mwynau yn rhannol	Rhannau mewn Ardal Diogelu Mwynau
Asesu	Bwlch bach (9.7ha) rhwng dau Categori C - pentrefi bach yn y CDU. Yn y CDLI arfaethedig mae Pantymwyn a Gwernaffield wedi eu dynodi fel Pentrefi Diffiniedig sydd â gwasanaethau a chyfleusterau cyfyngedig er mwyn cynnal anghenion lleol. Ni fydd datblygu ar ffurf dyraniadau tai graddfa fawr yn cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffafirir. O ystyried y diffyg pwysau datblygu a'r ffaith y gallai datblygu yn y lleoliad	Mae'r rhwystr glas bach yma (11.08ha) wedi ei leoli i'r gogledd o Garmel ac i'r gorllewin o Dreffynnon. Fel y'i diffinnir, nid yw'r rhwystr glas mewn gwirionedd yn atal cyfuno oherwydd bod y ddau anheddiad yma wedi cyfuno ar ochr ddeheuol yr A5026 Ffordd Holway. Ar y tir mae'n anod gwahaniaethu rhwng y ddau aneddiad.	Mae'r rhwystr glas bychan (68.5ha) rhwng aneddiadau diffiniedig Treffynnon, Greenfield a Bagillt wedi, ac mae'n parhau i brofi pwysau datblygu arwyddocaol. Mae'r rhwystr glas yn cynnwys cefn gwlad agored i'r gogledd o'r A5026 ac i'r gogledd a'r gorllewin o Ffordd Pen-y-Maes. Mae'r rhwystr glas yn amcanu at atal cyfuno rhwng ochr ogledd orllewinol Treffynnon, ochr ddwyreiniol (arfordirol) Greenfield ac ochr orllewinol Bagillt.

	<p>yma gael ei reoli gan bresenoldeb ffiniau anheddiad, ni ystyrir fel arfer y byddai angen gwarchodaeth rhwystr glas sydd yn mynd y tu hwnt i bolisiau cefn gwlad agored cenedlaethol a lleol cryf.</p> <p>Ond, mae angen edrych yn fanylach ar amgylchiadau penodol y bwllch cul rhwng yr aneddiadau. Er mwy gwneud hynny mae angen edrych ar ddau ran neilltuol y rhwystr glas.</p> <p>Mae swp y bwllch o gefn gwlad agored ar ochr ddeheuol Ffordd Cilcain yn rhan o'r cwrs golff ar ffurf 'tees' a 'greens' fel rhan o nifer o 'fairways'. Mae gweddill rhan trionglog (gogledd ddwyreiniol) y rhwystr glas yn cynnwys llystyfiant prysg a choed sydd yn ffinio ag ymyl gorllewinol ystâd tai The Links. Mae'r rhwystr glas yn gostwng i lawr tua'r gogledd tuag at y ffordd, a byddai datblygu arno yn weledol amlwg a byddai'n amharu ar weithgareddau'r cwrs golff.</p> <p>Mae'r cwrs golff yn ymestyn yn llawer pellach i'r gorllewin na ffin orllewinol bresennol y rhwystr glas. Ar hyd ymyl y ffordd mae'r rhwystr glas yn rhyw 350m o ffin yr anheddiad ar ochr ddwyreiniol Pantymwyn. Felly y cwrs golff ei hun sydd yn sicrhau bod bwllch arwyddocaol yn cael ei gadw rhwng y ddau anheddiad, yn hytrach na'r rhwystr glas bychan. Nid oes angen rhwystr glas bach fel rhan o'r cwrs golff ac ni ellir ei gyfiawnhau.</p> <p>Ar ochr ogleddol y ffordd mae yna fwllch cul rhwng datblygiad presennol</p>	<p>Felly unig bwrpas y rhwystr glas yma yw atal Treffynnon rhag ymestyn i gefn gwlad agored i'r gogledd o'r A5026 a diogelu'r cefn gwlad agored rhag tresbasu drwy hynny. Fel y'i diffinnir ar hyn o bryd, nid yw'r rhwystr glas mewn gwirionedd yn cynrychioli'r teitl, oherwydd nid yw'n ymestyn at ffin Treffynnon, oherwydd bod yna lain o dir agored yn y canol.</p> <p>Yn ystod proses y CDU ystyriwyd bod y rhwystr glas yn atal Treffynnon (Holway) rhag ymestyn tua'r gorllewin ar hyd ochr ogleddol Ffordd Holway oherwydd bod y tir agored amlwg yn darparu gosodiad deniadol i Garmel. Fodd bynnag, ni ystyrir bod y swyddogaeth yma ar ei ben ei hun yn ddigon i gyfiawnhau dynodiad y rhwystr glas yma pryd y gallai polisi cefn gwlad agored ddarparu gwarchodaeth rhag datblygu.</p> <p>Ar hyn o bryd nid oes dim pwysau datblygu arwyddocaol yn yr ardal. Fodd bynnag, o ystyried y prinder cyfleoedd datblygu yn Nhreffynnon, gallai cadw'r rhwystr glas atal rhyddhau tir fel rhan o ymestyniad trefol gorllewinol i Dreffynnon.</p> <p>Os bydd anheddiad Treffynnon yn cael ei ymestyn i'r gorllewin, mae yna ffiniau cadarn ac amddiffynadwy, a byddai hynny'n golygu y gellid dibynnu ar bolisi cefn gwlad agored i sicrhau y gellir parhau i gadw bwllch o dir agored ar ochr ogleddol yr A5026.</p> <p>Ni ystyrir y gellir cyfiawnhau'r rhwystr glas bychan yma.</p>	<p>Mae'r bwllch strategol allweddol ar ochr ogleddol Ffordd Pen-y-Maes o ystyried y pwysau datblygu ar ffurf safleoedd arfaethedig. Yng nghyd-destun y pwysau datblygu arwyddocaol yma, mae angen cadw'r lletem yma o rwystr glas er mwyn atal y posibilrwydd y bydd cyfuno yn digwydd ac er mwyn atal tresmasiad datblygiad ar gefn gwlad agored amlwg.</p> <p>Mae gweddill y rhwystr glas yn cynnwys llain hir a chul o dir rhwng yr A5026 a Ffordd Pen-y-Maes sydd yna yn ymestyn ar hyd ochr ddeheuol datblygiad adeiledig i'r de o Ffordd Pen-y-Maes. Mae topograffi y rhan yma o'r rhwystr glas a'r gorchudd coed ar ochr ogleddol yr A5026 yn gyfyngiad sylweddol i ddatblygu yn ffisegol ac o ran tirlun. Hefyd mae'n annhebygol iawn y bydd yna gyfuno o ystyried y pellder dan sylw a'r ffurf trefol ar ochr y rhan yma o Dreffynnon. Felly ystyrir nad yw rhan ddeheuol y rhwystr glas yn cyfrannu at ddiben y rhwystr glas, sef atal cyfuno. Felly ni ystyrir y gellir cyfiawnhau y rhan yma o'r rhwystr glas oherwydd bod polisiau cefn gwlad agored yn cynnig digon o warchodaeth.</p>
--	---	--	--

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd
 Papur Cefndir 1: Adolygiad Rhwystrau Glas (gyda mapiau) – Medi 2020

	<p>cul de sac Bwlch y Ddeufryn ar ochr orllewinol Gwernafield a'r datblygiad ar Heol Bryn Coch ar ochr ddwyreiniol Pantymwyn. Mae'r bwloch cul yn cynnwys dôl ac mae wedi ei leoli mewn safle amlwg a dyrchafedig ar wely rhwng dau anheddiad. Mae'r ddôl yn cynnig golygfeydd eang tua'r gogledd. Byd ei gadw fel rhwystr glas yn atal cyfuno'r ddau anheddiad ac yn gwarchod cymeriad agored parcel o dir arbennig o sensitif sydd yn osodiad i'r ddau anheddiad. Gellir cyfiawnhau cadw rhan yma o'r rhwystr glas.</p>		
Argymhelliad	<p>Cadw'r rhwystr glas ond dileu rhan o'r rhwystr glas ar ochr ddeheuol y ffordd.</p>	<p>Dileu'r rhwystr glas</p>	<p>Cadw'r rwystr glas yn dileu'r tir rhwng yr A5026 a Ffordd Pen-y-Maes.</p>

Rhwyrstr Glas CDU	Yr Wyddgrug-Gwernymynydd GEN4(10)	Yr Wyddgrug - Mynydd Isa / Sychdyn / New Brighton GEN4 (11)	Cei Connah - Northop Hall / Ewlo / Shotton GEN4 (12)
Swyddogaeth y Rhwystr Glas			
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	✓	✓	✓
Rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol	✓	✓	✓
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad	✓	✓	✓
Diogelu gosodiad ardal drefol	✓	✓	*
Cynorthwyo adfywiad trefol drwy annog ailgylchu tir segur a thir trefol arall	*	*	*
Ystyriaethau Eraill			
Pwysau datblygu arwyddocaol?	Oes, 8 safle arfaethedig mawr wedi eu cyflwyno ar gyfer datblygiad tai. 6 safle CDU. Dim Safleoedd Amgen	Oes, 17 safle arfaethedig wedi eu cyflwyno. 16 safle CDU. 6 Safle Amgen	Oes, 18 safle arfaethedig - 4 ohonynt yn ceisio gwarchodaeth gan y dynodiadau rhwystr glas presennol. 10 safle CDU. 1 Safle Amgen
Dyblygu dynodiadau polisi eraill.	Ardal Diogelu Mwynau yn rhannol	Ardal Diogelu Mwynau yn rhannol. Risg Llifogydd. Safleoedd Bywyd Gwyllt. Henebion Rhestredig	Ardal Diogelu Mwynau yn rhannol. Rhan sylweddol yn SSSI a SAC
Asesiad	bwlch strategol yn cynnwys 97 ha o gefn gwlad agored sensitif ac amlwg yn codi o Gwernymynydd o'r Wyddgrug. Ystyrir bod yr egwyddor o gadw'r rhwystr glas yn briodol o ystyried y swyddogaethau uchod y mae'n eu cyflawni.	Rhwyrstr glas strategol eang (502 ha) rhwng yr Wyddgrug ac aneddiadau cyfagos Mynydd Isa, New Brighton a Sychdyn. Pwysau datblygu arwyddocaol yn yr ardaloedd yma fel y tystiolaethir am hynny gan y safleoedd hepgor CDU a safleoedd arfaethedig y CDLI. Prif swyddogaethau'r	Mae hwn yn rhwystr glas strategol mawr (437ha) sydd yn gwahanu Cei Connah ac aneddiadau Northop Hall ac Ewlo ac sy'n ceisio atal mwy o dresmasu rhwng Cei Connah a Shotton.

	<p>Mae'r pellter llinell syth rhwng y datblygiad adeiledig yn yr Wyddgrug a Gwernymynydd yn tua 640m. Mae sensitifrwydd y bwllch yma yn fwy oherwydd bod yr A494T yn rhedeg drwyddo a' gylchfan gyda'r A5119 Ffordd Rhuthun, sydd yn darparu mynediad i'r Wyddgrug. Mae lawer o'r rhwystr glas yn cynnwys tir sydd y codi'n raddol at gyrion Gwernymynydd.</p> <p>Mae'n amlwg bod y rhwystr glas yn perfformio swyddogaeth strategol o ra atal cyfuno dau anheddiad ac mae hefyd yn atal tresmasiad datblygiad ar gefn gwlad agored amlwg. Mae'r ardal hefyd wedi profi pwysau datblygu yn ystod y broses o baratoi cyfres o Gynlluniau. Mae'r tir sydd yn codi yn darparu gosodiad i gyrion pob anheddiad ac mae hefyd yn cynorthwyo i warchod gosodiad y clwstwr sensitif o adeiladau rhestredig ym Mryn Coch Uchaf.</p> <p>Hefyd cynigir mân addasiad er mwyn tynnu'r 3 anedd sydd yn cael eu hadeiladu yn Nghors y Wern, Gwernymynydd o'r dynodiad rhwystr glas.</p>	<p>rhwystr glas yma yw atal cyfuno'r dref â'r aneddiadau yma ac atal tresmasu ar gefn gwald agored.</p> <p>Gellir rhannu'r rhwystr glas i nifer o elfennau neilltuol:</p> <p>Yr Wyddgrug – Sychdyn Mae'r rhwystr glas yma yn cynnwys y gorlifdir sydd yn gysylltiedig ag Afon Alyn a'r tirlun amaethyddol sydd yn codi hyd at Sychdyn. Mae ymestyniad Yr Wyddgrug i'r gogledd orllewin wedi ei gyfyngu gan y gorlifdir (parth C2) ac felly mae cyfuno Yr Wyddgrug a Neuadd y Sir / Sychdyn yn annhebygol. Ond, mae yna ryngweledd rhwng cyrion yr Wyddgrug a datblygiad oddi ar Heol Raikes, gaiff ei bwysleisio gan gymeriad agored Dyffryn Alyn.</p> <p>Mae'r tir i'r gogledd o Ffordd Black Brook yn cynnwys tir amaethyddol gyda gwrychoedd aeddfed wedi eu britho â lleiniau o goetir. O ran topograffi mae'r tir yn codi'n serth at gyrion Sychdyn ar gyffordd Ffordd Blackbrook a Heol Raikes. Mae safleoedd arfaethedig ar gyrion gorllewinol Sychdyn yn ymestyn i'r de ar hyd Heol Raikes at bwynt sydd ond yn 90m i'r gogledd o'r Glasfryn, ble mae yna weledd clir i ac o'r Wyddgrug. Felly mae'r rhwystr glas yn gweithredu yn y fan hon er mwyn gwarchod cymeriad agored ac edrychiad Dyffryn Alyn, drwy atal tresmasiad niweidiol ar gefn gwlad agored.</p> <p>Er nas yw'n debygol iawn y bydd yna gyfuno â'r Wyddgrug oherwydd y risg llifogydd, mae'r rhwystr glas yn gwarchod cymeriad agored Dyffryn Alyn ar berthynas dirlunio rhwng tref yr Wyddgrug a phentref Sychdyn, a datblygiad adeiledig Neuadd y Sir. Mae'r rhwystr glas yn adlewyrchu'r</p>	<p>Mae rhan orllewinol y rhwystr glas yn amcanu at atal cyfuno Cei Connah a Northop Hall. Mae hwn yn fwllch cul rhwng prif ganolfan gwasanaethau a phentref cynaliadwy ble mae yna bwysau datblygu arwyddocaol a maith. Gellir cyfiawnhau'r rhan hon o'r rhwystr glas yn llawn o ran atal cyfuno ac atal mwy o dresmasiad ar gefn gwlad agored.</p> <p>Yn rhan ddwyreiniol y rhwystr glas mae rhan sylweddol o dir yn rhan o Barc a Choed Wepre sydd wedi ei ddynodi'n SSSI a SAC. Mae'r dynodiadau yma yn ymestyn ar ffurf bys o dir llinol i'r de o Gei Connah sydd yn ymestyn o Shotton yn y dwyrain i Northop Hall yn y gorllewin. I bob pwrpas mae'n atal Cei Connah rhag ymestyn i'r de ac yn y pen draw mae'n atal cyfuno Shotton, Ewlo a Northop Hall yn uniongyrchol. Ond, mae yna bwysau datblygu sylweddol ar gyrion Ewloe Green, a byddai dileu y rhan yma o'r rhwystr glas yn gadael Ewlo / Ewloe Green yn arbennig o agored i ddatblygu adeiledig. Er bod rheilffordd Wrecsam - Bidston yn ffurfio ffin gadarn ac amddiffynadwy, mae yna bosibilrwydd y gallai ffin yr anheddiad gael ei chyfaddawdu allai arwain at fygwth a chyfuno Ewloe Green, Shotton ac Aston a rhan o Gei Connah. O ystyried y risg o gyfuno a'r angen i reoli tresmasiad trefol ar gefn gwlad agored, gellir cyfiawnhau cadw'r rhwystr glas.</p> <p>Mae paragraff 3.64 PPW yn nodi 'Gellir eu defnyddio i ddarparu byffer rhwng ffin yr anheddiad a dynodiadau statudol a diogelu golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r ardal.' Mae hyn yn gymwys i'r rhwystr glas penodol yma.</p>
--	--	--	---

		<p>rhwystr glas i'r dwyrain o'r A5119 ym Mhont Leadmill, sydd yn atal cyfuno yr Wyddgrug a New Brighton / Mynydd Isa.</p> <p>Yr Wyddgrug– Mynydd Isa</p> <p>Mae yna fwch cul a strategol rhwng cyrion Yr Wyddgrug a Mynydd Isa. Mae'r bwch yn amlwg yn yr ystyr ei fod yn bodoli o gwmpas y gylchfan rhwng yr A494(T), yr A5409 a'r A541. Mae'r gylchfan yn agos i'r orsaf betrol a adnewyddwyd ac a ymestynnwyd yn ddiweddar a ble mae hen ffermdy Pen y Bont wedi cael ei droi'n darfan/tŷ bwyta. Er hynny, mae'r gylchfan hon a'r ddau ddatblygiad yma yn dal yn rhan o gyd-destun gwledig ble mae cefn gwlad agored yn ymestyn hyd at y gylchfan. Mae'r A494(T) yn hollti parcel mawr o dir a elwir yn Pen y Bont. Ond, mae swp safle Pen y Bont ar lefel uwch na'r gylchfan ac mae'n cynnig golygfeydd amlwg o gefn gwlad agored ehangach. Mae hynny yn rhoi teimlad o ehangder a lle sydd yn ychwanegu at y ffaith ei fod yn rhan annatod o'r rhwystr glas ehangach. Dywedodd yr Archwilydd CDU '<i>...o ystyried maint y safle a'i edrychiad gwledig, nid wy yn cytuno ei fod yn rhan annatod o'r ardal adeiledig. Mae'n amlwg yn rhan o gefn gwlad ac mae'n cyfrannu at y bwch rhwng yr aneddiadau. Er gwaetha ei oleuadau stryd a'r orsaf betrol, bu i fy ymweliad â'r safle gadarnhau yr ystyrir bod y gylchfan yn rhan o'r ardal wledig nid yr ardal drefol. Rwyf yn nodi uchod y gall y tir yma ar ryw adeg yn y dyfodol fod yn addas i'w datblygu, ond yn fy marn i nid yw hynny yn cyfiawnhau ei ddileu o'r rhwystr glas o ystyried yr amgylchiadau presennol pan fo'n ffurfio rhan annatod o'r bwch rhwng aneddiadau ac yn atal tresmasiad i'r ardal wledig. Nes bod y sefyllfa yn cael ei</i></p>	<p>Wrth asesu safleoedd arfaethedig, mae dau safle arfaethedig rhwng Ffordd Treffynnon a Heol Green wedi cael eu dyrannu ar gyfer tai. Er bod hynny yn golygu y bydd angen tynnu'r rhwystr glas yn ôl, mae'r ddau safle gyda'i gilydd yn cynrychioli estyniad rhesymegol i'r anheddiad. Mae presenoldeb New Inn Brook, sydd yn safle bywyd gwyllt ac sydd yn parhau o SAC Madfall y Dŵr glannau Dyfrdwy a Bwcle, yn gweithredu fel ffin gadarn ac amddiffynadwy a bydd yn rhwystro'r rhan yma o'r anheddiad rhag ymestyn allan, ac ni fydd cyfuno yn fgygythiad. Nid yw colli'r parcel yma o dir yn niweidio uniondeb y rhwystr glas ehangach.</p>
--	--	---	--

		<p><i>hadolygu, mae'r datblygiad oddi ar Ffordd Woodlands yn darparu ffin amddiffynadwy gadarn.</i> O ran opsiynau datblygu ar gyfer yr Wyddgrug, mae yna dir ar gyrion gogledd orllewinol y dref nad yw'r dynodiad rhwystr glas yn effeithio arno. Ni ellir cyfiawnhau tresmasiad sylweddol i'r rhwystr glas yma pan fo tir ar gael y tu allan i'r rhwystr glas.</p> <p>Sychdyn / New Brighton Mae yna fwlch cul rhwng y ddau anheddiad sydd yn cynnwys tir y naill ochr a'r llall i Ffordd New Brighton. Er gwaethaf presenoldeb Clawdd Wats, sydd yn Heneb Restredig sydd yn rhedeg drwy'r rhan hon o'r rhwystr glas, mae angen gwarchod y bwllch rhwng y ddau anheddiad, o ystyried lefel y pwysau datblygu.</p> <p>Ond, ni ystyrir bod angen i'r rhwystr glas amgylchynu ffin gogledd orllewinol New Brighton, i'r dwyrain o'r gwesty. Felly ystyrir y dylid dileu'r rhan yma o'r rhwystr glas.</p> <p>Mynydd Isa / New Brighton Mae llinell yr A494(T) yn ffurfio ffin gadarn ac amddiffynadwy i ffin ddwyreiniol New Brighton. Bydd dileu y rhan yma o'r rhwystr glas yn darparu sgôp ar gyfer datblygu preswyl heb beryglu cynnal y bwllch rhwng yr anheddiad a Mynydd Isa. Mae'r tir i'r dwyrain a'r gorllewin o Ffordd Bryn y Baal yn ffurfio rhan o amrwym o dir sydd yn cyfrannu at yr amcan o wahanu New Brighton, Mynydd Isa a'r Wyddgrug. Dylid cadw'r rhan yma o'r rhwystr glas.</p>	
Argymhelliad	Cadw'r rhwystr glas ond dileu y tri annedd a adeiladwyd yn ddiweddar yn Fferm Tros y Wern.	Cadw'r rhwystr glas ond dileu: i) y llain o dir i'r dwyrain i'r gwesty yn New Brighton	Mae'r rhwystr glas yn a yn cael ei gadw ond mae'r tir hwnnw rhwng Ffordd Treffynnon a Heol Green yn cael ei dynnu o'r rhwystr glas er mwyn hwyluso dyraniad tai.

		ii) y llain o dir ar gyrion dwyreiniol New Brighton, sy'n ffinio â'r A5119 i'r gogledd, yr A494 i'r dwyrain a Ffordd Bryn y Baal i'r de.	
--	--	--	--

Rhwyr Glas CDU	Shotton – Mancot – Penarlâg - Ewlo GEN4 (13)	Penarlâg – Mancot - Maes Awyr Penarlâg - Saltney (D Afon Dyfrdwy) GEN4 (14)	Brychdyn - Maes Awyr Penarlâg - Saltney - Ffin Swydd Caer GEN4 (15)
Swyddogaeth y Rhwyr Glas			
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	✓	*?	✓?
Rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol	✓	✓	✓?
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad	✓	✓	✓
Diogelu gosodiad ardal drefol	✓	✓	*
Cynorthwyo adfywiad trefol drwy annog ailgylchu tir segur a thir trefol arall	*	*	✓
Ystyriaethau Eraill			
Pwysau datblygu arwyddocaol?	Oes, 10 safle arfaethedig. 11 safle CDU. 1 Safle Amgen	Oes - 7 safle arfaethedig. 4 safle CDU. Dim Safleoedd Amgen	Oes - 5 safle arfaethedig. 1 safle CDU. Dim Safleoedd Amgen
Dyblygu dynodiadau polisi eraill.	Adeiladau Rhestredig	Tir amaethyddol gorau a mwyaf amrywiol, risg llifogydd	Rhannau mewn Ardal Diogelu Mwynau Risg Llifogydd. (rhannol). Tir amaethyddol gorau a mwyaf amrywiol (rhannol).
Asesiad	Rhwyr glas 140 ha sydd yn cynnwys ardal gul o dir strategol sydd yn gwahanu nifer o aneddiadau sydd â phwysau datblygu arwyddocaol. Ystyrir bod yr egwyddor o gadw'r rhwystr glas yn briodol o ystyried y swyddogaethau uchod y mae'n eu cyflawni, yn arbennig o ran atal cyfuno mwy ar yr aneddiadau.	Rhwyr glas helaeth (490ha) i'r gogledd ac i'r dwyrain o Benarlâg er mwyn atal mwy o gyfuno rhwng Penarlâg/Mancot a Mancot/Sandycroft. Mae'n ymestyn tuag at Faes Awyr Penarlâg ac mae'n cynnwys y tir amaethyddol gwastad rhwng ffin ogleddol y maes awyr a glannau deheuol Afon Dyfrdwy rhwng Sandycroft i'r gorllewin a Saltney i'r dwyrain,	Mae'r rhwystr glas yma (464 ha) yn ffurfio bwlch strategol rhwng Brychdyn/Bretton a Saltney a ffin Swydd Caer. Mae'n cynnwys tir gwastad ac agored ble gallai datblygiad niweidio ei gymeriad a'r edrychiad agored. Mae'r A55 yn darparu ffin gadarn ac amddiffynadwy i unrhyw ymestyniad i'r de o Frychdyn. Ond, byddai lleoliad safle strategol estynedig Warren Hall ar ochr

<p>Mae rhan ddeheuol y rhwystr glas yn canolbwyntio ar y bwlch cul rhwng Penarlâg ac Ewlo, ar ochr ogleddol y B5125 y Briffordd. Mae rhan yma'r rhwystr glas yn ffinio â'r rheilffordd yn y gogledd. Ar ochr ogleddol y rheilffordd mae'r amrwym o gefn gwlad agored yn atal cyfuno Penarlâg gyda rhan 'allanolyn' bychan o Shotton / Aston, sydd ar ochr ddwyreiniol yr A494. Mae'r bwlch hwn yn gul ac mae wedi profi pwysau datblygu parhaus.</p> <p>I'r gogledd ddwyrain o Neuadd Aston, mae'r rhwystr glas yn ymledu ac yn ymestyn o Benarlâg tua'r gorllewin at yr A494 a Shotton / Aston a Queensferry / Willow Park. Yn y lleoliad yma mae yna amrwym o gefn gwlad amlwg ac agored sydd yn atal cyfuno.</p> <p>I'r gogledd ddwyrain o Ffordd Gladstone, mae'r amrwym o gefn gwlad agored yn cadw bwlch agored rhwng aneddiadau ar wahân Mancot, Sandycroft, Pentre a Queensferry (Willow Park).</p> <p>Ystyrir y dylid cadw'r rhwystr glas mewn perthynas â'r swyddogaethau allweddol o ran atal cyfuno a tresbasu ar gefn gwlad agored.</p> <p>Yn y tymor hirach, o bosibl fel rhan o CDLI2, ystyrir bod angen adolygiad manylach o'r rhwystr glas. Mae hynny yn cydnabod y gallai bwrw ymlaen â'r llwybr coch ddarparu cyfle i greu estyniad trefol yn y leoliad cyffredinol yma, fyddai'n elwa o fwy o</p>	<p>O edrych ar y rhwystr glas rhwng Penarlâg a Mancot yn ardal Ash Lane, ystyrir nad yw'r ardal yma yn cyfrannu at uniondeb cyffredinol dynodiad rhwystr glas. Mae'r parcel o dir rhwng ardal adeiledig Penarlâg i'r gorllewin a Mancot i'r gogledd a'r dwyrain, fel nad yw'n strategol bwysig o ran gwahanu'r ddau anheddiad. Wrth ystyried safle heggor yn yr Ymholiad CDU bu i'r Archwiliwr argymhell bod y safle yn cael ei ddileu o'r rhwystr glas a'i fod yn cael ei ddyrannu ar gyfer tai. Yng ngoleuni'r hanes cynllunio yma, ni ystyrir ei bod yn briodol cadw'r safle fel rhwystr glas, ac mae wedi ei ddyrannu ar gyfer tai.</p> <p>I'r de o'r ardal uchod cynigir cadw'r rhwystr glas fel y mae, ac ystyrir bod angen cadw bwlch strategol rhwng Mancot ac ardal adeiledig hanesyddol Penarlâg. Yna mae'r rhwystr glas yn amgylchynu ffin ddwyreiniol Mancot tuag at Sandycroft. Mae'r rhan yma o'r rhwystr glas yn bwysig o ran gwarchod gosodiad anheddiad hanesyddol Penarlâg ac atal Mancot rhag tresbasu tua'r de ddwyrain ar gefn gwlad agored. Mae'r ochr yma o Mancot wedi ei ddiffinio'n dda ac mae'n wledig iawn ei gymeriad a'i edrychiad, ac mae'n briodol bod rhwystr glas yn gwarchod hynny.</p> <p>Ni ystyrir bod y rhwystr glas i'r de ddwyrain o Moor Lanre yn cyfrannu at swyddogaeth y rhwystr glas penodol yma oherwydd bod y rhwystr glas yn lletach na sydd eu angen er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw. Yn yr un modd, ni ystyrir bod angen i rhwystr glas ymestyn i ddwyrain Sandycroft ac ar hyd glannau deheuol Afon Dyfrdwy. Mae dileu y rhan yma o'r rhwystr glas yn darparu hyblygrwydd tymor hir er mwyn caniatáu gwell cysylltiadau rhwng y</p>	<p>ddeheuol yr A55 (a'r angen i ystyried estyniad arall i'r de) yn arwain at fwch cul rhwng Warren Hall a Higher Kinnerton. Mae hynny yn cael ei bwysleisio gan y caniatâd cynllunio diweddar i Elan Homes a ymestynnodd Higher Kinnerton tua'r gogledd orllewin tuag at Warren Hall. Felly ystyrir ei bod yn angenrheidiol a phriodol cadw'r rhwystr glas yma a'i ymestyn tua'r de orllewin er mwyn cynnwys tir ar gyffordd Heol Kinnerton a Heol Lesters ac yn ymestyn ar hyd ochr ogleddol y Brif Ffordd hyd at ffin y Sir.</p> <p>Mae rhan nesaf y rhwystr glas yn ymestyn rhwng ffin ddwyreiniol Bretton a ffin orllewinol Saltney ar ochr ogleddol a deheuol yr A5104 Ffordd Caer.</p> <p>Ar ochr ddeheuol yr A5104 Ffordd Caer, mae'r rhwystr glas yn amgylchynu ffin ddeheuol Bretton a Pharc Siopa Brychdyn. Yna mae'n ymestyn i'r dwyrain ar hyd ffin y Sir at Sandy Lane Saltney. Mae'r tirlun yn yr ardal yma yn wastad ac agored o ran ei gymeriad a'i edrychiad ac mae'r rhwystr glas yn adlewyrchu Llain Werdd Swydd Caer ar y ffin. Mae Brychdyn yng nghanol yr ardal twf y cyfeirir ato yng Nghynllun Gofodol Cymru. Mae'r rhwystr glas presennol yn dynn yn erbyn Ffordd Bretton a'r parc siopa a ffin anheddiad Bretton, ac nid yw'n cynnig dim sgôp ar gyfer twf i'r dyfodol. Mae'r bwlch rhwng Bretton a Saltney yn 2.1km ac ystyrir bod y rhwystr glas yn fwy nag sydd ei angen i atal cyfuno. Felly ystyrir ei bod yn briodol tynnu'r rhwystr glas yn ôl fel ei fod yn fras yn dilyn llinell y rhwystr glas ar hyd Ystâd Ddiwydiannol Broughton Mills ar ochr ogleddol Ffordd Caer.</p>
---	--	---

	<p>gapasiti priffyrdd ar yr A494. Ond, at ddiben y CDLI yma, safle Porth y Gogledd ddylai fod yn brif ffocws ar gyfer datblygu ac adfywio.</p>	<p>ddau ran ar wahân o Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy ac efallai datblygu yn y tymor hirach yn Sandycroft ac Airbus / Ystâd Ddiwydiannol Penarlâg, yn ddarostyngedig i ystyried materion risg llifogydd a thir amaethyddol.</p> <p>Ystyrir ei bod yn angenrheidiol a phriodol cadw'r bwch cul a sensitif rhwng Saltney ac Airbus/Broughton Mills. Mae'r bwch yma wedi ei ddiffinio'n dda ac mae'n cynnwys tir amaethyddol gwastad sydd wedi ei hollti gan Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru. Mae'r tirlun yn agored ac amlwg gyda pheth rhyngweledd o ran datblygiadau yn Airbus a chyrrion Saltney. Mae'r rhwystr glas yn y lleoliad yma yn atal cyfuno Saltney a Brychdyn/Airbus ac atal datblygu adeiledig rhag tresbasu ar gefn gwlad agored a gwarchod gosodiad agored ardal adeiledig Caer.</p> <p>Felly cynigir cadw'r rhwystr glas presennol rhwng ffin ddwyreiniol Airbus a ffin orllewinol Ffordd Saltney Ferry, ond nad yw'n ymestyn ymhellach na draen groesliniol (gyda gwrych) sydd yn rhedeg tua'r de orllewin a'r gogledd ddwyrain. Ar sail y cynnig i ddileu gweddill y rhwystr glas ar hyd ffin ddeheuol Afon Dyfrdwy, cynigir ychwanegu'r rhan fechan o'r rhwystr glas a gedwir at rwystr glas rhif 15 Brychdyn-Maes Awyr Penarlâg -Saltney-Swydd Caer (gweler GEN4-15) ar ffurf estyniad i'r rhwystr glas hwnnw tua'r gogledd.</p>	<p>Mae gweddill y rhwystr glas yn ddigon cydnerth ac wedi ei ddiffinio'n ddigon da i atal cyfuno â Saltney. Ond, byddai gweddill y rhwystr glas yn caniatáu ymestyn yn y dyfodol o bosibl i'r dwyrain o Frychdyn / Bretton.</p> <p>Mae rhan nesaf y rhwystr glas i'r gogledd o Ffordd Caer yn gwarchod y bwch cul rhwng Saltney Ferry Road ac Ardal Datblygu'r Maes Awyr. Mae hwn yn dir gwastad ac agored sydd yn amlwg o Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru.</p> <p>Yn y bwch cul yma rhwng Ardal Datblygu'r Maes Awyr a Saltney, mae yna ddau rwystr glas ar wahân. Mae'r ffin rhwng y ddau yn dilyn llinell yr hen reilffordd (Cyffordd Yr Wyddgrug) sydd yn troi i'r gorllewin tuag at Brychdyn. Mae'r rhwystr glas (GEN4-15) i'r de o'r llinell yma ac mae'r rhwystr glas ffiniol (GEN4-14_ i'r gogledd o'r llinell yma. O ystyried yr argymhellir bod GEN4-14 yn cael ei ddileu ar hyd Afon Dyfrdwy, cynigir bod GEN4-15 yn cael ei ymestyn ychydig i'r gogledd hyd at ffoes ddraenio sydd wedi ei diffinio'n dda gyda gwrych aeddfed, sydd yn rhedeg i'r de orllewin - gogledd ddwyrain.</p>
<p>Argymhelliad</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas ond:- i) dileu tir y tu ôl i a rhwng datblygiad preswyl ar Park Avenue /Gladstone Way ac Ash Lane, Mancot:</p>	<p>Cadw'r rhwystr glas ac: i) Ymestyn y rhwystr glas er mwyn cynnwys y bwch rhwng Warren Hall, Higher Kinnerton a fin y Sir.</p>

		<p>ii) dileu tir i'r dwyrain o Moor Lane ac ar hy glannau deheuol Afon Dyfrdwy:</p> <p>iii) ychwanegu rhan fechan o'r rhwystr glas presennol rhwng Saltney ac Airbus at rwystr glas Rhif 15 (Brychdyn - Maes Awyr Penarlâg - Saltney - Ffin Swydd Caer) ar ffurf estyniad gogleddol.</p>	<p>ii) Ymestyn y rhwystr glas ychydig i'r gogledd orllewin o Saltney Ferry Road (o ganlyniad i ddileu gweddill rhwystr glas GEN4-14)</p>
--	--	--	--

Rhwystr Glas CDU	Sealand - Ffin Swydd Caer (Gogledd Afon Dyfrdwy) GEN4(16)	Bwcle - Mynydd Bychan – Dobshell – Drury – Penarlâg - Ewlo GEN4 (17)	Hope - Caergwrle GEN4 (18)
Swyddogaeth y Rhwystr Glas			
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	✓	✓	*
Rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol	✓	✓	*
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad	✓	✓	✓
Diogelu gosodiad ardal drefol	✓	✓	*
Cynorthwyo adfywiad trefol drwy annog ailgylchu tir segur a thir trefol arall	?	?	*
Ystyriaethau Eraill			
Pwysau datblygu arwyddocaol?	Oes - 8 safle arfaethedig. 12 safle hepgor CDU 7 Safle Amgen	Oes. Sawl safle arfaethedig. 22 safle hepgor CDU. 9 Safle Amgen	Pwysau datblygu cyfyngedig iawn - 1 safle arfaethedig bach. 2 safle hepgor CDU Dim Safleoedd Amgen
Dyblygu dynodiadau polisi eraill.	Ardal Diogelu Mwynau. Rhannol SSSI a SAC Tir amaethyddol gorau a mwyaf amrywiol, risg llifogydd	Rhannau mewn Ardal Diogelu Mwynau	Ardal risg llifogydd afonol, Ardal Diogelu Mwynau ac Ardal Gadwraeth
Asesiad	Y rhwystr glas mwyaf yn y Sir sydd yn cynnwys 1502 ha o dir amaethyddol gwastad ac agored ar ochr ogleddol Afon Dyfrdwy sydd yn ffinio â Swydd Caer. Mae'r rhwystr glas yn bodloni'r holl swyddogaethau a nodir yn y PPW a	Rhwystr glas eang 511ha i'r de o Fwcle, i'r dwyrain o Drury ac Ewlo ac i'r de o Benarlâg. Fe'i dynodwyd er mwyn atal cyfuno Penarlâg ac Ewlo, Bwcle a Drury, a Drury ac Ewlo, a Bwcle a Phenyffordd yn y de. Hefyd mae'r rhwystr glas yn doriad rhwng datblygiad preswyl ym Mwcle a'r gwaith yn Padeswood / Castle Cement, sydd, er nad yw'n	Rhwystr glas bychan (49ha) yn ffinio â Hope yn y dwyrain, Heol Fagl yn y gogledd, yr A541 yn y gorllewin a Chaergwrle yn y de. Nid yw'r rhwystr glas yn gwahanu aneddiadau neilltuol oherwydd bod Hope a Chaergwrle (yn ogystal ag Abermorddu a Chefn y Bedd) yn cael eu diffinio fel un anheddiad yn nhermau cynllunio. Hefyd, nid oes yna

	<p>byddai datblygiad newydd yn eithriadol amlwg.</p> <p>Mae'r rhwystr glas yn adlewyrchu llain werth Swydd Caer a gellir ei gyfiawnhau o ystyried ei gymeriad a'i edrychiad agored a lefel y pwysau datblygu yn ninas Caer a'r cyrion.</p> <p>Ar hyn o bryd mae ffin y rhwystr glas ar gyffordd yr A548 a'r A494 (T) yn torri ar draws canol y darn o dir sydd wedi'i leoli i'r gogledd o Drome Road. Mae'n ymddangos bod y ffin hon yn ganlyniad i'r gyfnewidfa well a adeiladwyd ar ôl i'r ffin wreiddiol gael ei digideiddio. Mae'r darn o dir wedi'i gynnal yn dda gan ddatblygiad adeileidig presennol a'r seilwaith ffyrdd ac mae'n wahanol o ran cymeriad o'r dirwedd amaethyddol wastad i'r gogledd o'r A548. Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio ar 03/04/19 roi caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster parcio a theithio ar y tir hwn. Dylid tynnu ffin y rhwystr glas yn ôl i linell yr A548 er mwyn dilyn ffin gadarn ac amddiffynadwy.</p> <p>Yn yr un modd ar ochr ddwyreiniol y gyfnewidfa mae ffin y rhwystr glas yn torri ar draws darn o dir sydd wedi'i leoli rhwng y gyfnewidfa a'r A548 / Green Lane East. Mae'n ymddangos bod y ffin hon o ganlyniad i'r gyfnewidfa well a adeiladwyd ar ôl i'r ffin wreiddiol gael ei digideiddio. Dylid tynnu ffin y rhwystr glas yn ôl i ddilyn yr aliniad ffordd grom er mwyn dilyn ffin gadarn ac amddiffynadwy.</p>	<p>anheddiad, yn cynnwys ffurf adeileidig mawr yn y tirlun.</p> <p>De o Fwcle / Padeswood Mae'r rhan yma o'r rhwystr glas yn cynnwys tir agored ac amlwg sydd yn codi o'r A5118 yn Padeswood hyd at ffin amlwg y datblygiad adeileidig ar hyd ffin ddeheuol Spon Green a Meg's Lane. Mae'r ardal wedi profi pwysau datblygu arwyddocaol drwy gyfres o gynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio diweddar, ac mae'r rhwystr glas wedi cael ei gynnal gan gyfres o Archwilwyr. Mae'r rhwystr glas yn amcanu at atal cyfuno Bwcle a'r datblygiad adeileidig yn Padeswood ac yn amcanu at atal tresmasiad ar gefn gwlad agored sydd yn darparu gosodiad i'r ffurf adeileidig yn y rhan yma o Fwcle. Mae'r tir yn cyflawni dibenion y dynodiad rhwystr glas a dylid ei gadw.</p> <p>Mae rhan fechan o'r rhwystr glas yma yn ymestyn i ochr ogledd ddwyreiniol Bannel Lane. Mae ffin ogleddol y darn bach yma o dir siâp lletem yn ffinio â datblygiadau ar dri ochr gan ruban o ddatblygiad sydd yn ymestyn ar hyd Ffordd Bannel, datblygiad ar Heol Westbury, ruban byr o ddatblygiad ar hyd Ffordd caer a depo / ystâd ddiwydiannol. Ar hyd Ffordd Caer mae'r bwch annatblygedig yn rhyw 140m tra bod y bwch rhwng Haulfryn a'r depo / ystâd ddiwydiannol yn 105m. Mae lefel yr amgaead tir gan y datblygiad adeileidig yn golygu nad yw'n cyfrannu at ddibenion y rhwystr glas. Felly argymhellir bod y rhwystr glas yn cael ei dynnu'n ôl at linell rhwng Glan Menai ar Ffordd Bannel a'r depo / ystâd ddiwydiannol.</p> <p>Drury / Bwcle. Mae anheddiad Drury i'r gogledd ddwyrain o Fwcle. Ym hen gogleddol y bwch yma (ar ochr ddeheuol cyffordd Heol Drury a Ffordd</p>	<p>lawer o bwysau datblygu fel y tystiolaethir am hynny gan y 1 safle arfaethedig a gyflynwyd. Hefyd, nid yw'r tebygolrwydd o bwysau datblygu yn y dyfodol yn y lleoliad yma yn un realistig ar ôl dileu Ffordd Osgoi A550/A541 Hope Caergwrle o gynllun ffyrdd y Cyngor Sir.</p> <p>Mae rheilffordd Wrecsam i Bidston yn darparu ffin ffisegol cadarn i'r ymestyniad tuag at Hope. Hefyd mae presenoldeb y gwaith carthffosiaeth a'r risg o lifogydd o Afon Alyn yn darparu cyfyngiadau cryf i ddatblygu yn y dyfodol i'r gogledd o Gaergwrle. Er gwaethaf cymeriad agored Dyffryn Alyn ni ystyrir bod angen gwarchodaeth rhwystr glas sydd y tu hwnt i bolisiau cefn gwlad agored cenedlaethol a lleol oherwydd presenoldeb cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol.</p>
--	---	---	---

		<p>Mount Pleasant), mae'r bwllch rhwng ffiniau'r ddau anheddiad yn rhyw 70m. Ym mhen deheuol y bwllch (rhwng New Drury Road a'r datblygiad yn Rosewood Grove) mae'r pellter rhwng ffiniau'r ddau anheddiad yn 200m. Mae'r bwllch rhwng y ddau anheddiad wedi ei hollti gan New Drury Road. Mae'r tir ar y naill ochr a'r llall o Drury New Road yn amlwg ac mae iddo deimlad agored, er gwaethaf agosrwydd y ddau anheddiad.</p> <p>Yn y pen draw rhwystrir y ddau anheddiad rhag cyfuno'n uniongyrchol gan yr SSSI / SAC sydd yn ffinio â ffin orllewinol y rhwystr glas, a'r pyllau GCN sydd yn cynnwys ardaloedd lliniaru ecolegol sydd yn gysylltiedig â datblygiad The Heathlands. Ond, byddai dileu'r rhwystr glas o bosibl yn erydu ehangder yr amrwym yma o dir i'r pwynt pan fo dim ond bwllch cul iawn rhwng y ddau anheddiad. Hefyd mae Drury yn anheddiad cymharol fach o'i gymharu a Bwcle, ac mae'r rhwystr glas yn helpu o ran cadw ei faint presennol, ei gymeriad a'i ffurf. Gellir cyfiawnhau'r rhwystr glas mewn perthynas ag atal cyfuno'r ddau anheddiad ac atal tresmasiad trefol ar gefn gwlad agored.</p> <p>Mae paragraff 3.64 PPW yn nodi 'Gellir eu defnyddio i ddarparu byffer rhwng ffin yr anheddiad a dynodiadau statudol a diogelu golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r ardal.' Mae hyn yn gymwys i'r rhwystr glas penodol yma.</p> <p>Mynydd Bach /Dobshill /Penyffordd Mae'r ardal yma o dir i'r gogledd o'r A5118 ac i'r gorllewin o'r A550 wedi profi pwysau datblygu mewn cyfres o gynlluniau datblygu. Mae'r tir yn gyffredinol wastad o ran ei gymeriad, ac mae'r tri anheddiad yn cymharol agos i'w gilydd. Mae'r rhwystr glas</p>	
--	--	---	--

		<p>yn amgylchynu ffin ddeheuol Bwcle a Mynydd Bach ac mae'n angenrheidiol er mwyn atal Mynydd Bychan rhag tresbasu i'r dwyrain ac atal cyfuno.</p> <p>Tir i'r dwyrain o Drury. Mae'r rhwystr glas yn amcanu at warchod yr amrwym eang o dir i'r dwyrain a Fwcle a Mynydd Bach drwy amgylchynu fin ogledd ddwyreiniol Drury. Mae'r tir yn gostwng yn raddol i lawr o Drury at yr A55(T) ac mae'r tir yn amlwg iawn i draffig sydd yn mynd heibio. Yn achos Drury, mae yna gyfleoedd eisoes i ddatblygu o fewn ffiniau presennol yr anheddiad ar gyrion Banc Lane a Dinghouse Wood (bu i'r olaf yn ddiweddar gael caniatâd cynllunio ar gyfer tai). Mae'r tir rhwng Drury a'r A55 yn amcanu at warchod parcel amlwg o sir ar ochr yr A5. Felly mae'r rhwystr glas yn atal tresbasu ar gefn gwlad amlwg a gosodiad y rhan yma o'r anheddiad. Hefyd, mae'n amcanu at hwyluso datblygu tir presennol, sydd eisoes o fewn ffiniau'r anheddiad.</p> <p>Ewlo / Penarlâg I'r gogledd o'r A55 mae'r rhwystr glas ar hyn o bryd yn cynnwys tir sydd yn ymestyn i'r dwyrain o gyrion Ewlo at yr A550 ac i'r gogledd at Benarlâg. Yn gynnwysedig yn y rhwystr glas yma mae tir rhwng y rheilffordd a'r A550 sydd yn cynnwys y cwrs golff, lleiniau o goetir a'r dyffryn sydd yn dilyn Nant Brychdyn. Mae pwysau datblygu yn annhebygol iawn mewn perthynas â defnydd tir presennol, topograffi a chyfyngiadau. Felly ystyrir ei bod yn briodol dileu'r rhwystr glas i'r dwyrain o'r rheilffordd oherwydd nad yw hynny'n angenrheidiol i fodloni amcanion y rhwystr glas o ran gwahanu Ewlo a Phenarlâg. Bydd y rhwystr glas sydd ar ôl yn amcanu at atal Ewlo rhag tresmasu mwy ar</p>	
--	--	---	--

		gefn gwlad agored a bydd yn atal cyfuno Ewlo a Phenarlâg.	
Argymhelliad	Cadw'r rhwystr glas ond dau ddiwygiad bach i dynnu'r ffin yn ôl ar ochr ddwyreiniol a gorllewinol cyfnewidfa'r A548 / A494 (T)	Cadw'r rhwystr glas ond: i) Dileu y rhan hwnnw o'r rhwystr glas rhwng Heol Bannel a Ffordd Caer at linell rhwng Glan Menai a'r depo / ystâd ddiwydiannol. ii) Dileu'r rhan hwnnw o'r rhwystr glas rhwng y rheilffordd a'r A550 rhwng yr A55 a Phenarlâg.	Dileu'r rhwystr glas.

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd
Papur Cefndir 1: Adolygiad Rhwystrau Glas (gyda mapiau) – Medi 2020

Rhwyrstr Glas Arfaethedig	Penyffordd / Penymynydd (Gorllewin)	Penyffordd / Penymynydd (Dwyrain)	Sychdyn (estyniad gogledd ddwyreiniol)
Swyddogaeth y Rhwystr Glas			
Atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill	*	*	*
Rheoli ffurf trefol drwy reoli twf ardaloedd trefol	*	*	*
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwald rhag tresmasiad	*	✓	✓?
Diogelu gosodiad ardal drefol	*	?	*
Cynorthwyo adfywiad trefol drwy annog ailgylchu tir segur a thir trefol arall	*	*	*
Ystyriaethau eraill			
Pwysau datblygu arwyddocaol?	9 safle arfaethedig ar gyfer tai, 2 safle arfaethedig ar gyfer cyflogaeth / safleoedd hepgor CDU / 1 Safle Amgen	6 safle arfaethedig ar gyfer tai / Safleoedd Hepgor CDU. 8 Safle Amgen	2 safle arfaethedig ar gyfer tai / 2 Safle Hepgor CDU. Dim Safleoedd Amgen
Dyblygu dynodiadau polisi eraill.			Henebion Rhestredig
Asesiad	Mae'r rhwystr glas a awgrymir (PEN029) yn amcanu at dynodi tir dynodedig i'r gorllewin o'r A550 ond hefyd gynnwys parceli o dir rhwng ffin bresennol yr anheddiad a'r A550 yn cynnwys: i) Y tir rhwng Ffordd Penarlâg a'r A550 i'r gogledd o Fferm Wood Lane.	Mae'r rhwystr glas a awgrymir (PEN30) yn ceisio dynodi tir i'r dwyrain o ffin bresennol yr anheddiad. Mae'r ffin a awgrymir yn cynnwys caeau sydd i bob pwrpas yn adlewyrchu ffurf a siâp ffin ddwyreiniol datblygiad yn yr anheddiad. Mae'n ymestyn o Heol Platt ar ffin ddeheuol yr anheddiad i'r llwybr cyhoeddus ar hyd ffin ddeheuol	Mae'r rhwystr glas presennol yn ymestyn i'r gogledd ddwyrain hyd at ffin y datblygiad adeiledig ym Mhen-y-Pentre a hyd at ffin cae sy'n ffinio â Glan y Gors ar Ffordd Alltami. Byddai'r rhwystr glas a awgrymir yn ymestyn ar hyd Ffordd Alltami i'r gogledd orllewin, gan amgylchynu caniatad cynllunio Ffordd Eldon, hyd at linell llwybr cyhoeddus sydd yn

	<p>ii) Parsel trionglog o dir yn ffinio â chornel de orllewinol datblygiad Fferm Wood Lane.</p> <p>iii) Ardal chwarae bychan yn ffinio ag ardal goediog oddi ar Ffordd Derwyn / Plas yn Rhos.</p> <p>iv) Tir i'r gogledd o Ffordd Rhos</p> <p>v) Rhuban o dir yn ymestyn i'r de ddwyrain o Ffordd Rhos at ddatblygiad preswyl presennol yn Westview.</p> <p>Mae nifer o'r parseli yma o dir wedi cael eu cyflwyno hefyd drwy gyflwyno safleoedd arfaethedig eraill i'w gwarchod fel tir amaethyddol neu fel mannau agored / byffer bywyd gwyllt - adroddir ar y rhain ar wahân.</p> <p>Tir i'r gorllewin o'r A550. Mae'r A550 yn darparu ffin gadarn ac amddiffynadwy i anheddiad Penyffordd / Penmynydd ac mae'n gweithredu fel ffin ffisegol gadarn rhag ymestyn yr anheddiad ar ochr orllewinol yr A550. Bu i'r Archwilydd ar Ffordd Rhos (N) fabwysiadu ymagwedd o'r fath. Ond, nid yw hynny yn golygu bod yr holl dir ar linell y ffordd osgoi yn addas neu'n briodol ar gyfer datblygu.</p> <p>Yr unig anheddiad i'r gorllewin o Benyffordd / Penmynydd yr Pontblyddyn sydd 2.3km i ffwrdd. Felly nid oes yna risg o gyfuno â'r anheddiad yma. I'r gogledd o Benyffordd / Penmynydd mae Bwcle, ond mae ymestyn Bwcle eisoes yn cael ei reoli gan rwystr glas sydd yn ymestyn i'r de ddwyrain at gyffordd yr A5118 / A550 ar gyrion Penyffordd/Penyynydd.</p>	<p>datblygiad White Lion a man agored cysylltiedig.</p> <p>Yr unig anheddiad i'r dwyrain o Benyffordd / Penmynydd yw Higher Kinnerton sydd yn perthyn i'r un haen yn yr hierarchaeth aneddiadau h.y. trydedd haen 'pentrefi cynaliadwy'. Yn ddiweddar mae Higher Kinnerton wedi bod yn destun caniatâd cynllunio (sydd erbyn hyn yn cael ei adeiladu) ar ei ffin ogledd orllewinol, a bydd yn ymestyn datblygiad hyd at hawl tramwyo / llwybr cyhoeddus sydd wedi ei ddiffinio'n dda. I'r gorllewin o'r llwybr mae dau adeilad rhestredig (Kinnerton lodge a'i flociau stablau) sydd yn atal mwy o ddatblygu. Wrth adolygu GEN4(15) cynigir ymestyn yn rhwystr glas hwnnw er mwyn cynnwys y tir rhwng Higher Kinnerton a safle strategol Warren Hall. Hefyd mae yna adeiladau rhestredig ar ffin orllewinol Higher Kinnerton yn Crompton Hall a Kinnerton Hall, sydd hefyd yn atal ymestyn tua'r gorllewin. Er bod Higher Kinnerton yn bentref cynaliadwy mae'n anheddiad cymharol fychan a byddai angen i unrhyw gynigion datblygu i'r dyfodol adlewyrchu hynny o ran maint y datblygiad. Yn y cyd-destun hwnnw a chyfyngiadau penodol mewn perthynas â datblygu ar hyd ffin orllewinol yr anheddiad, nid yw cyfuno â Phenyffordd/Penyynydd yn debygol iawn.</p> <p>Mae gan y Strategaeth a Ffafirir ddyraniad defnydd cymysg strategol yn Warren Hall sydd wedi cynnwys ymestyniad bychan i'r gorllewin. Mae'r ymestyniad yn ymestyn at Kinnerton Labe sydd yn ffin gadarn ac amddiffynadwy, o ystyried y ffordd a llinell y coed aeddfed ar hyd ffin y dyraniad. Mae'r pellter rhwng ffin y dyraniad yma a ffin datblygiad adeiledig yn White Lion yn ychydig llai na 1km.</p>	<p>ymestyn o Ffordd Celyn a Ffordd Eldon hyd at Ffordd Alltami.</p> <p>Amcan y rhwystr glas presennol yw atal cyfuno Sychdyn a New Brighton. Yn yr asesiad o GEN4(11) ystyrir nad yw'r tir i'r dwyrain o linell Clawdd Wats yn cyflawni'r diben hwnnw. O ystyried cynllun y datblygiad adeiledig yn New Brighton, mewn perthynas â Ffordd New Brighton a Chlawdd Wats, nid oes risg o gyfuno ar ochr ddwyreiniol y Clawdd. Hefyd, mae rhan o'r Clawdd rhwng y ddau anheddiad yn Heneb Rhestredig sydd yn ei warchod rhag datblygu. Y bwch allweddol i'w warchod yw'r tir i'r gorllewin o'r Clawdd.</p> <p>Mae'r estyniad a awgrymir i'r rhwystr glas yn amcanu i atal datblygu Sychdyn i gyfeiriad y gogledd. Mae Ffordd Alltami yn ffin resymegol ac amddiffynadwy rhag mwy o ddatblygu, ac i'r gogledd o'r fan yma mae Coed Pwll y Gaseg sydd yn goetir mawr sydd yn ymestyn i'r gogledd o Ffordd Alltami. Mae'r coetir yma yn ffurfio rhan o'r Parc a Gerddi Hanesyddol sydd yn gysylltiedig â Soughton Hall, ac mae hynny yn ei warchod rhag datblygu.</p> <p>Yr unig anheddiad i'r gogledd o Sychdyn yw Llanceurgain sydd yn 1.5m i ffwrdd ac wedi ei wahanu gan barc a gardd hanesyddol a nifer o adeiladau rhestredig yn cynnwys Soughton Hall. O ystyried bod y ddau anheddiad yn perthyn i drydedd haen yr hierarchaeth aneddiadau fel pentrefi cynaliadwy, ond yn aneddiadau bach, ni ystyrir bod cyfuno yn debygol o gwbl. Er y gallai dynodiad rhwystr glas gynorthwyo o ran atal datblygu rhag tresmasu ar gefn gwlad agored, nid yw'n glir be fyddai'r niwed o ganlyniad i beth ymestyn i'r gogledd hyd at Ffordd Alltami yn y rhan</p>
--	---	---	---

	<p>I'r gorllewin o'r rhwystr glas arfaethedig mae Gwaith Sment Padeswood. Mae'r parthau byffer 250m sydd yn gysylltiedig â dau safle tirlenwi yn ymestyn bron at y ffin a awgrymir, ac mae gan y gwaith sment ei hun barth ymgynghori ar gyfer unrhyw ddatblygiad allai effeithio ar weithredu diogel yn y gwaith neu allai arwain at effaith ar amwynderau neu'r amgylchedd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig. Mae'r gwaith sment yn cyfyngu ar ddatblygu preswyl i'r gorllewin o'r A550.</p> <p>Mae cynigydd y rhwystr glas hefyd wedi cynnig safle cyflogaeth 2.3ha arwyddocaol i'r gogledd o'r A5104 sydd yn ffinio â'r A550 a'r rheilffordd. Yn amlwg byddai datblygiad cyflogaeth o'r fath yn ddatblygiad amhriodol mewn rhwystr glas a byddai yn effeithio ar y cymeriad agored. Byddai cyflwyno unrhyw ddatblygu ar ochr orllewinol yr A550 yn gwanhau arwyddocâd yr A550 o ran atal yr anheddiad rhag ymestyn i'r gorllewin ac yn creu cynsail i fwy o gynigion datblygu.</p> <p>Ni fyddai'r rhwystr glas arfaethedig yn bodloni unrhyw un o amcanion neu swyddogaethau rhwystr glas a byddai dynodi hynny yn amhriodol.</p> <p>Tir rhwng yr A550 a'r anheddiad Fel y nodir uchod, ystyrir bod yr A550 yn ffin gadarn ac amddiffynadwy ar hyd ffin orllewinol yr anheddiad. Dyma oedd safbwynt yr Archwilydd ym mhenderfyniad apêl Ffordd Rhos (N). Ond, nid yw hynny yn golygu y dylai'r holl dir ar ochr ddwyreiniol yr A550</p>	<p>Mae pwysau datblygu arwyddocaol wedi bod ym Mhenyffordd/Penmynydd o ganlyniad i anallu'r Cyngor i ddangos cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Ond, ni ystyrir bod cyfuno Penyffordd / Penmynydd gyda Warren Hall yn debygol, sydd yn safle unigol o fewn ffiniau ffisegol sydd wedi ei ddiffinio'n dda. Mae presenoldeb y man agored a'r ardal lliniaru ecolegol ar hyd ffin dwyreiniol datblygiad tai White Lion (y tu allan i ffin yr anheddiad) yn dangos bwriad clir i atal datblygu rhag ymestyn mwy i'r dwyrain ar hyd yr A5104.</p> <p>O ystyried y pellter rhwng Penyffordd / Penmynydd a safle strategol Warren Hall a natur y cefn gwlad rhyngddynt, ni ystyrir bod cyfuno rhwng y ddau yn debygol. Er y gallai rhwystr glas gynorthwyo o ran atal datblygu adeiledig rhag tresmasu tua'r dwyrain ar gefn gwlad agored, ni ystyrir bod hynny ynddo ei hun yn ddigon i warantu dynodiad rhwystr glas.</p>	<p>yma o'r anheddiad, yn ddarostyngedig i amryw o faterion fod yn dderbyniol.</p> <p>Ni ystyrir bod yr estyniad a awgrymir i'r rhwystr glas yn bodloni unrhyw feini prawf ar gyfer dynodi. Hefyd, cynigir bod gweddill y rhwystr glas, i'r dwyrain o'r Clawdd, yn cael ei ddileu, ac mae hynny yn ategu'r achos i beidio ag ymestyn y rhwystr glas.</p>
--	--	---	---

	<p>gael ei ddatblygu. Mae'r sawl sydd wedi cynnig y rhwystr glas hefyd wedi cyflwyno nifer o safleoedd arfaethedig eraill gan geisio gwarchod amryw barseili o dir, a bydd y rhain yn cael eu hystyried ar wahân. Ond, fel trosolwg cyffredinol, mae yna barseili a goetir a thir arall ble byddai datblygu yn amhriodol naill ai oherwydd bod iddynt werth mewn perthynas â hamdden, tirlun neu ecoleg. Mae'n fwy priodol i bob un o'r parseili yma gael eu hystyried ar sail eu rhinweddau eu hunain, yn hytrach na cheisio pennu dynodiad rhwystr glas. Hefyd, mae'r safleoedd yma wedi eu gwarchod yn gyffredinol rhag datblygu oherwydd eu bod y tu allan i ffin yr anheddiad. Ni ystyrir y gellir cyfiawnhau rhwystr glas rhwng ffin yr anheddiad a'r A550.</p>		
Argymhelliad	Peidio â dynodi'r tir fel rhwystr glas	Peidio â dynodi'r tir fel rhwystr glas	Peidio ag ymestyn y rhwystr glas i gynnwys y tir i'r gogledd o Sychdyn.

Appendix 1. Green Barrier Review

Gronant – Talacre – Gwespyr - Ffynnongroyw


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Appendix 2. Green Barrier Review

Gorsedd - Carmel


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Appendix 3. Green Barrier Review

Flint - Bagillt


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Appendix 4. Green Barrier Review

Flint – Connah’s Quay


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2020.

Planning, Environment & Economy,
 Flintshire County Council,
 County Hall, Mold,
 Flintshire, CH7 6NF.
 Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:20,000 @ A4
 OS Map: Explorer
 Produced: 26/08/2020



Appendix 5. Green Barrier Review

Flint – Flint Mountain


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



**GEN4(5)
Deletion**

EN11.5



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2020.

Planning, Environment & Economy,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:10,000 @ A4
OS Map: Explorer
Produced: 26/08/2020



Appendix 6. Green Barrier Review

Flint Mountain - Northop


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Appendix 7. Green Barrier Review

Gwernaffield - Pantymwyn


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Appendix 8. Green Barrier Review

Holywell - Carmel

Legend




LDP Green Barrier



UDP Green Barrier

**GEN4(8)
Deletion**

Holway



Appendix 9. Green Barrier Review

Holywell – Greenfield - Bagillt


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



EN11.8

GEN4(9)
Deletion



Appendix 10. Green Barrier Review

Mold - Gwernymynydd


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Appendix 11. Green Barrier Review

Mold – Mynydd Isa – New Brighton - Sychdyn


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



EN11.10

GEN4(11)

Deletion




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2020.

Planning, Environment & Economy,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:20,000 @ A4
OS Map: Explorer
Produced: 26/08/2020





Appendix 12. Green Barrier Review

Connah's Quay – Northop Hall – Ewloe - Shotton

Legend

LDP Green Barrier

UDP Green Barrier

Appendix 13. Green Barrier Review

Shotton – Mancot – Hawarden - Ewloe


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2020.

Planning, Environment & Economy,
 Flintshire County Council,
 County Hall, Mold,
 Flintshire, CH7 6NF.
 Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:15,000@ A4
 OS Map: Explorer
 Produced: 26/08/2020



Appendix 14. Green Barrier Review

Hawarden – Mancot – Hawarden Airport


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Deletion EN11.13

**GEN4(14)
Deletion**



Appendix 15. Green Barrier Review

Broughton – Hawarden Airport - Saltney


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier



Appendix 16. Green Barrier Review

Sealand – Cheshire Border


Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2020.

Planning, Environment & Economy,
 Flintshire County Council,
 County Hall, Mold,
 Flintshire, CH7 6NF.
 Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:50,000 @ A4
 OS Map: Explorer
 Produced: 26/08/2020







Appendix 17. Green Barrier Review

**Buckley – Little Mountain – Dobshill
Drury – Hawarden - Ewloe**

Legend

-  LDP Green Barrier
-  UDP Green Barrier

Appendix 18. Green Barrier Review

Hope - Caergwrle

Legend



LDP Green Barrier



UDP Green Barrier

